**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MDFWL/00229/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

17 Ebrill 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth ynglŷn â'r ardoll ymwelwyr, sef testun deiseb P-06-1502 'Cael gwared ar y cynigion ar gyfer Treth Twristiaeth'. Diolch am roi'r cyfle i mi roi fy safbwynt cyn i'r Pwyllgor ei hystyried.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil gerbron y Senedd ar hyn o bryd er mwyn i'r Aelodau ei ystyried a chraffu arno. Ar 1 Ebrill, cafwyd dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Senedd, a phleidleisiwyd i gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

Mae'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardal ai peidio, yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae'n cyflawni ymrwymiad a wnaed ym maniffesto Llafur Cymru, ac a gadarnhawyd yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Nod y Bil yw cryfhau'r sector a sicrhau bod y pethau sy'n gwneud Cymru yn ddeniadol i ymwelwyr yn parhau i fod yn ddeniadol i'r ymwelwyr hynny yn y dyfodol. Dyma'r nodau:

- Sicrhau y bydd costau ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol sydd o fudd i ymwelwyr yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr.
- Galluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu refeniw ychwanegol y gellir ei fuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol sy'n gallu cefnogi twristiaeth.
- Helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer gwneud twristiaeth yn fwy cynaliadwy.

Mae'r ardoll yn gyffredinol wedi'i phennu ar gyfradd sy'n is na'r ardollau sydd ar waith mewn mannau eraill. Mae'n gyfraniad cymedrol gan bobl er mwyn ystyried effaith eu hymweliad ar y lle y maen nhw'n ymweld ag ef.

Pe bai'r holl awdurdodau lleol yn defnyddio ardoll ymwelwyr, amcangyfrifir y byddai'n cynhyrchu hyd at tua £33 miliwn y flwyddyn ar draws Cymru. Bydd unrhyw refeniw a godir o'r ardoll o fudd i dwristiaeth Cymru yn y tymor hirach gan y byddai'n cefnogi set fwy gwydn a chynaliadwy o weithgareddau gwerth uchel i ymwelwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae twristiaeth yn parhau i ffynnu mewn cyrchfannau sy'n defnyddio ardollau ymwelwyr. Rwy'n rhagweld y bydd hyn yn wir yng Nghymru, gydag ardaloedd yn gweld budd net o weithredu ardoll.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai ymwelwyr yn aros dros y ffin yn Lloegr er mwyn osgoi talu'r ardoll, gan fod pobl yn ymweld â Chymru am resymau sy'n bwysicach na'r pris yn unig. Mae gennym lawer iawn o bethau i'w harddangos a'u cynnig i ymwelwyr.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad 'Cymru fel cyrchfan fyd-eang' ym mis Gorffennaf 2023. Er bod yr adroddiad yn codi pryderon am yr ardoll, mae hefyd yn cydnabod y gallai fod manteision a allai gronni o ganlyniad i'r cynnig, ac y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau lleol. Yn ogystal, mae llawer wedi symud ymlaen ers hynny. Pasiwyd y Bil Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) ar 28 Mai 2024, a daeth yn Ddeddf ar 5 Gorffennaf 2024. Mae Manceinion wedi cyflwyno system o godi tâl dinas, ac mae nifer o gyrchfannau ledled y DU yn ceisio cyflwyno taliadau tebyg.

Rwy'n cydnabod bod yr economi ymwelwyr yn ffynhonnell bwysig o ran swyddi a thwf economaidd ledled Cymru. Rydym wedi llunio ardoll syml sy'n hawdd i fusnesau gydymffurfio â hi, er mwyn sicrhau bod y baich ar y busnesau lleiaf mor fach â phosibl.

I grynhoi, uchelgais Llywodraeth Cymru yw tyfu twristiaeth er budd Cymru drwy gefnogi cymunedau lleol mewn ffordd sy'n gynaliadwy i dir ac amgylchedd Cymru, gan ddatblygu fframwaith sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, sef i'r ymwelwyr a'n dinasyddion.

Gobeithio y bydd yr ymateb hwn o gymorth i chi a'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language